**Polisi ar Gau a Datgan Eglwys yn Segur**

**Egwyddorion i'w hystyried**

• Mae cau eglwys ac yna ei datgan yn segur yn benderfyniad nad oes unrhyw Gyngor Plwyf na chynulleidfa yn ei wneud yn ddifeddwl heb ystyriaeth ddwys a gweddi daer.

• Gall cau a datgan eglwys yn segur fod yn fater emosiynol a gofidus iawn i'r rhai y mae eu teuluoedd wedi addoli yno ers cenedlaethau ac a allai fod â theuluoedd wedi'u claddu ym mynwent yr eglwys.

• Yn fynych iawn, mae cost cynnal adeilad yn ffactor pwysig yn y sefyllfa. Mewn rhai achosion, mae cynulleidfa sy’n heneiddio ac yn marw ac aelodau yn mynd yn gaeth i'r tŷ hefyd yn ffactorau ychwanegol.

• Mae angen i'r broses o gau a datgan eglwys yn segur fod mor gyflym a di-boen â phosibl.

• Unwaith y bydd eglwys wedi cau a'r gwasanaeth terfynol wedi ei gynnal, bydd y Periglor a’r plwyfolion yn aml yn ymwahanu oddi wrth y broses o gau a datgan eglwys yn segur.

• Yn aml, bydd proses ddylai gymryd dim mwy na 6 mis yn cymryd dros flwyddyn ac, mewn rhai achosion, llawer hirach. Mae hyn yn achos gofid i blwyfolion ond mae ganddo oblygiadau ariannol i'r Plwyf, yr Esgobaeth a’r Dalaith hefyd.

**Polisi**

**1) Y penderfyniad i gau**

• Mae'n hanfodol, cyn gwneud penderfyniad i gau, bod yn rhaid i'r Periglor/Cyngor Plwyf ymgynghori â'r Archddiacon cyn gynted â phosibl gan y bydd yr Archddiacon yn cynghori'r Pwyllgor Eglwysig a Bugeiliol (CPC) ar gefndir ac amgylchiadau'r bwriad i gau.

• Bydd y CPC yn gofyn am gopi ardystiedig o'r cofnod sy'n gwneud y penderfyniad i gau ac yn gofyn i'r CPC hysbysu'r Esgob yn unol â hynny.

• Dylid cysylltu â Chadeirydd y CPC er mwyn dechrau'r broses; bydd y Cadeirydd yn cynghori’r Periglor a’r plwyfi ynghylch y weithdrefn i'w dilyn.

• Dylid cyflwyno amserlen arfaethedig ar gyfer cau (e.e. y dyddiad y bwriedir cynnal y gwasanaeth diwethaf, dylai hyn fod o leiaf 6 mis cynt).

• Dylid dilyn y polisi ar gyllid eglwysig.

• Bydd Cadeirydd y CPC yn rhoi gwybod i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth (DBF) am gau'r eglwys arfaethedig er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r canlynol: Rhannu Gweinidogaeth ac Yswiriant Eglwys.

• Bydd Ysgrifennydd y DBF yn hysbysu plwyfi mewn perthynas â Rhannu'r Weinidogaeth ac Yswiriant Eglwys.

2) **Camau Rhagarweiniol**

Mewn achos o gynnig bod eglwys yn cau ac yn cael ei datgan yn segur, mae nifer o gamau rhagarweiniol cyfreithiol yn unol â Chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru y mae angen eu dilyn a'u cwblhau cyn datgan eglwys yn segur er mwyn galluogi'r Pwyllgor Eglwysig a Bugeiliol i hysbysu'r Esgob.

• Penderfyniad gan y Cyngor Plwyf y dylai'r eglwys gau gyda'r bwriad o'i datgan yn segur

• Barn y Periglor, Wardeiniaid yr Eglwys a'r Cyngor Plwyf ynghylch sut y gellid defnyddio'r adeilad yn y dyfodol.

• Pwy sydd â theitl cyfreithiol i Adeilad yr Eglwys (Corff y Cynrychiolwyr gan amlaf, er bod yna ychydig o rifersiynau yn eu lle).

• Adroddiad gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ar rinweddau hanesyddol, pensaernïol ac artistig yr eglwys, ynghyd ag argymhellion ar y camau i'w cymryd.

• Y defnydd o gynnwys yr Eglwys yn y dyfodol – bydd angen Hawleb i symud eitemau (mae angen prawf bod hyn yn cael ei ganiatáu).

• Dyfodol a gofal y fynwent (gweler y Polisi ar Fynwent yr Eglwys).

3) **Cynnwys yr Eglwys**

a) Wrth ystyried Cynnwys yr Eglwys a thynnu eitemau posibl oddi yno, rhaid glynu wrth Bolisi yr Eglwys yng Nghymru ar Waredu Cynnwys.

b) Ar y cyfle cyntaf dylid gofyn am gyngor yr Archddiacon ac Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth.

c) Ni ddylai eitemau o'r Eglwys gael eu dychwelyd o dan unrhyw amgylchiadau i unigolion neu deuluoedd y rhai a'u rhoddodd, oni bai bod Gweithred Hawleb wedi cytuno i hynny. Mae Hawleb yn ofynnol ar gyfer yr holl gynnwys cyn y gellir eu symud.

d) Ymdrinnir â gosodiadau a ffitiadau ar wahân a rhaid dilyn Polisi yr Eglwys yng Nghymru ar Waredu Cynnwys yr Eglwys. Gellir gofyn am gyngor gan Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth (DAC) ac Adran Eiddo Corff y Cynrychiolwyr.

d) Os yw eglwys arall yn dymuno derbyn eitem, rhaid bod ganddi Hawleb ar gyfer gwneud hyn.

4) **Dyddiad cau swyddogol**

Polisi presennol yr Esgobaeth yw cael yr un dyddiad ar gyfer cau'r eglwys yn swyddogol a'i datgan yn segur. Mae hyn yn golygu y bydd eglwys yn cael ei hystyried gan yr Esgobaeth a'r Dalaith fel un sy'n parhau ar agor nes bod yr holl gamau rhagarweiniol (adran 2) wedi'u cwblhau. Bydd Eglwysi yn gyfrifol am Rannu Gweinidogaeth ac Yswiriant hyd at y dyddiad cau swyddogol.

5) **Cau ar sail Iechyd a Diogelwch (neu dynnu yswiriant yn ôl)**

Os bydd eglwys ar gau ar sail iechyd a diogelwch a bernir ei bod yn anniogel gan arwain at dynnu yswiriant yn ôl, bydd angen gwneud penderfyniad yn gyflym ynghylch a ddylid gwneud y gwaith angenrheidiol neu a ddylid datgan bod yr adeilad yn segur. Ymdrinnir â phob eglwys yn y categori hwn fesul achos a rhaid hysbysu Cadeirydd y CPC ar unwaith.

Yr Hybarch Paul Mackness - Cadeirydd y Pwyllgor Eglwysig a Bugeiliol

Medi 2015

**Manylion Cyswllt Defnyddiol**

Cadeirydd y Pwyllgor Eglwysig a Bugeiliol: Yr Hybarch Paul Mackness Archdeacon.stdavids@churchinwales.org.uk

Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth: Janet Every, Swyddfa Esgobaethol Tyddewi, Abergwili SA31 2JG 01267 236145 janetevery@churchinwales.org.uk

Adran Eiddo Corff y Cynrychiolwyr 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT 02920 348200 Gwefan: www.churchinwales.org.uk